

# CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

## **Cofnodion y Cyfarfod Cyffredinol gynhaliwyd 5 Chwefror, 2018 am 7.30yh yn Ystafell Berkley, Penyparc**

### **Presennol:**

Cyng. Llinos Price (*Cadeirydd*)  
Cyng. Lyn Jones  
Cyng. Peter Williams  
Cyng. Lloyd Jenkins  
Mrs Hildreth Owen (*Clerc*)

Cyng. Dilwyn Jenkins (*Is-Gadeirydd*)  
Cyng. Des Davies  
Cyng. Ann Stokoe  
Cyng. Matthew Morgan  
Cyng. Clive Davies (*aelod lleol y Cyngor Sir*)

- 1. Croeso'r Cadeirydd:** Croesawodd y Cadeirydd, y Cyng. Llinos Price, bawb i gyfarfod mis Chwefror. Estynnodd gydymdeimlad y Cyngor i'r Cyngorydd Auriol Williams a'r teulu yn dilyn eu profedigaeth o golli ei mam, Mrs Mair Elias.
- 2. Ymddiheuriadau am absenoldeb:** Y Cyng. Eurig Lloyd, Auriol Williams.
- 3. Cofnodion y cyfarfod cyffredinol blaenorol:**  
Cynigiwyd gan y Cyng. Lloyd Jenkins ac eiliwyd gan y Cyng. Peter Williams bod cofnodion mis Ionawr yn gywir.
- 4. Datgelu buddiannau personol:** Dim
- 5. Materion yn codi:**
  - (a) Brynteg, Ferwig:** Mae'r Cyng. Dilwyn Jenkins a'r Cyng. Lyn Jones wedi cytuno cyfarfod â Mr Robert Morgan er mwyn i Mr Morgan brisio'r gwaith o ail-leoli'r llechen. Gofynnwyd i'r Clerc anfon llythyr i berchnogion Brynteg yn eu cynghori y bydd y llechen yn cael ei hail-leoli yn yr un man.
  - (b) Cysgodfannau Bws:** Penderfynwyd gwneud cais am grant er mwyn prynu cysgodfan bws newydd yn Penyparc, yn lle'r un cafodd ei symud gan y Cyngor Sir. Cytunodd y Cyng. Dilwyn Jenkins a'r Cyng. Matthew Morgan hefyd edrych ar y gysgodfan yn Gwbart sydd angen ei thrwsio. Dywedodd y Cyng. Llinos Price bod y gysgodfan gyferbyn â Pwllbywmpwr, Penyparc, mewn cyflwr gwael. Codwyd y pwynt gan y Cyng. Peter Williams bod angen darganfod pwy fyddai'n gyfrifol os fyddai aelod o'r cyhoedd yn cael niwed. Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu gyda'r adran gyfreithiol o'r Cyngor Sir yn gofyn am gyfarwyddyd.
  - (c) Baw Cwn:** Trefnwyd cyfarfod cyhoeddus yn festrï Capel Penyparc ar 12 Chwefror i drafod problemau baw cwn ar balmentydd a llwybrau. Gwahoddir PCSO Matthew Kieboom a'r Cyng. Clive Davies i fynychu'r cyfarfod. Mae posteri i hysbysu'r digwyddiad wedi eu dosbarthu.
- 6. Ceisiadau am Gymorth Ariannol**  
I'w penderfynu ym mis Ebrill a mis Hydref, yn unol ag adrannau 137 a 142 (CAB) o'r Ddeddf Ariannol 1996.

Hen Ysgol y Ferwig	I'w drafod ym mis Ebrill 2018
PTA Ysgol Gymunedol Penyparc (mis Tachwedd)	£150
Ysgol Feithrin Penyparc	£2,000
Papur Bro "Y Gambo"	£150
Cyngor ar Bopeth	I'w drafod ym mis Ebrill 2018
Gŵyl Fawr Aberteifi	I'w drafod ym mis Ebrill 2018
Clybiau Ffermwyr Ifainc Ceredigion	I'w drafod ym mis Ebrill 2018
Cangen Samariaid Aberystwyth	I'w drafod ym mis Ebrill 2018
Gofal Canser Tenovus	I'w drafod ym mis Ebrill 2018

(*Enwau wedi eu hitaleiddio = cyrifon wedi eu danfon i mewn gyda'r cais*)
- 7. Cynllunio:** Dim

# CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

## 8. Materion Ariannol

### Biliau wedi eu talu:

Cyflog y Clerc (Ionawr 2018)	101666	£308.77
Costau'r Clerc (Ionawr 2018)	101667	£48.00
Cyllid a Thollau EM: Treth Incwm y Clerc (Ionawr 2018)	101668	£77.20
Zurich: Yswiriant 1/4/18 – 31/3/19	101669	£725.29
Canolfan Ieuenctid Penyparc:		
Hanner cost yswiriant Ystafell Berkley	101670	£310.32
Glanhau ystafelloedd newid Ystafell Berkley	101671	£220.32

Cynigiwyd gan y Cyng. Dilwyn Jenkins ac eiliwyd gan y Cyng Ann Stokoe bod y biliau uchod yn cael eu talu.

**Derbyniadau:** Dim.

**Materion ariannol eraill:** Dim.

## 9. Gohebiaeth

76	Clybiau Ffermwyr Ieuainc Ceredigion	Cais am gymorth ariannol	I'w drafod ym mis Ebrill 2018
77	Samariaid (Cangen Aberystwyth)	Cais am gymorth ariannol	I'w drafod ym mis Ebrill 2018
78	Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru	Arolwg o'r Trefniadau Etholiadol ar gyfer Sir Ceredigion: Cynigion Drafft.  Gweler isod.	Mae'r posteri wedi eu harddangos yn yr hysbysfyrddau. Gwybodaeth bellach: <a href="http://www.cffdl.llyw.cymru">www.cffdl.llyw.cymru</a> Gofynnwyd i'r aelodau ddychwelyd eu sylwadau i'r cyfarfod nesaf ar Mawrth 5.
79	Elin Jones AC	Cyfarchion y flwyddyn newydd a phosteri sy'n hysbysu sut y gall etholwyr gysylltu â hi er mwyn trefnu apwyntiad i'w gweld mewn cymhorthfa.	Mae'r posteri wedi eu harddangos yn yr hysbysfyrddau.
80	Mr a Mrs Giles Evans, Crug Bychan, Ferwig	Cwynion am gyflwr y lôn rhwng Bolafron a Penfeidr.	Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu gyda Mr a Mrs Evans yn dweud bod y mater wedi ei drafod a bod y Cyngor yn disgwyl ateb oddi wrth y Cyngor Sir.
81	Ben Lake AS	Posteri sy'n hysbysu sut y gall etholwyr gysylltu â'r aelod seneddol er mwyn trefnu apwyntiad i'w weld mewn cymhorthfa.	Mae'r posteri wedi eu harddangos yn yr hysbysfyrddau.
82	Tenovus – Gofal Canser	Cais am gymorth ariannol.	I'w drafod ym mis Ebrill.
83	Cyngor Sir Ceredigion (Adran Gyllid)	Costau Etholiad Cyngor Tref a Chymuned, Mai 2017 (£162.30)	Bydd yr anfoneb yn cyrraedd yn y flwyddyn ariannol 2018-19.
84	Gŵyl Fawr Aberteifi	Cais am gymorth ariannol.	I'w drafod ym mis Ebrill.
85	Zurich Municipal	Dogfenni yswiriant am y flwyddyn 1/4/18 – 31/3/19	Mae'r dogfenni wedi eu ffeilio ar y cyfrifiadur a'r system allanol.
86	FUW Insurance Services (Ystafell Berkley, Penyparc)	Dogfenni yswiriant am y flwyddyn yn dechrau ar 20 Chwefror 2018.	Mae'r Cyngor yn talu 50% o'r costau. Mae'r dogfenni wedi eu ffeilio gan y Clerc.

[78] **Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru.** Mae copi o'r "Adroddiad Cynigion Drafft" a gyhoeddwyd yn Ionawr 2018 gan y Comisiwn ar gael gan y Clerc. Mae'r Adroddiad yn ymdrin ag "Arolwg o Drefniadau Etholiadol Sir Ceredigion". Mae'r Comisiwn yn cynnig y dylai Cyngor Sir Ceredigion gynnwys 38 aelod yn hytrach na'r 42 presennol. Mae hyn yn arwain at gyfartaledd sirol arfaethedig o 1,384 o etholwyr fesul aelod.

# CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

Cynigiodd Cyngor Sir Ceredigion ddiwygiad i'r ffin gymunedol rhwng Tref Aberteifi a Chymuned y Ferwig gan drosglwyddo 380 o etholwyr o ran orllewinol Cymuned y Ferwig i ward Mwldan yn nhref Aberteifi. Anfonwyd argymhellion y Cyngor Sir ymlaen i'r Comisiwn ar 3 Ebrill 2017. (*Gweler Atodiad 5.*)

Mae'r Comisiwn yn cynnig cyfuno Cymunedau Aberporth a'r Ferwig i ffurfio ward etholiadol o 2,683 o etholwyr yn cael eu cynrychioli gan ddau gynghorydd. Mae'r Comisiwn wedi rhoi'r enw Cymraeg "Aber-porth a'r Ferwig" i'r ward etholiadol arfaethedig yn y Gymraeg ac "Aber-porth and Y Ferwig" yn Saesneg.

Mae'r Comisiwn hefyd yn cynnig cyfuno Cymunedau Beulah a Llangoedmor i ffurfio ward etholiadol o 2,244 o etholwyr gyda chynrychiolaeth o ddau gynghorydd.

Er gwybodaeth: Mae gan ward etholiadol bresennol Penparc sydd yn cynnwys Cymunedau Llangoedmor a'r Ferwig 1,838 o etholwyr a gynrychiolir gan un cynghorydd (y Cyng. J. Clive Davies) sydd 33% uwchlaw'r cyfartaledd sirol arfaethedig o 1,384 o etholwyr.

Mae angen anfon sylwadau yn ôl erbyn 16 Ebrill 2018.

(*Mae'r wybodaeth uchod ar gael ar dudalennau 9, 12, 13, 15 o'r Adroddiad.*)

## 10. Materion Eraill:

- (a) **Llwybr o Olygfan Gwbert i Westy'r "Flat Rock":** Derbyniwyd galwad ffôn oddi wrth Mrs Caroline Edwards o Gwbert yn diolch am y gwaith sydd wedi ei gyflawni ar y Llwybr.
- (b) **Traeth Pistyll Ifor:** Derbyniwyd cwyn oddi wrth Mrs Shirley Daniel ynglŷn â chyflwr cyffredinol y traeth. Gofynnwyd i'r Clerc anfon llythyr at Mrs Daniel yn dweud nad yw'r Cyngor fel rheol yn derbyn cwynion ar lafar ond yn unig drwy lythyr neu e-bost. Cynigiodd y Cyng Dilwyn Jenkins siarad gyda swyddogion Sianel Glir Afon Teifi gan fod y traethau o dan eu rheolaeth hwy. Gofynnwyd i'r Cyng. Jenkins adrodd yn ôl i'r Clerc.
- (c) **Gwteri'r Gymuned:** Yn dilyn y tywydd anffafriol, mae angen cysylltu gyda'r Cyngor Sir i glirio'r gwteri. Mae'r clerch wedi anfon at y Cyngor Sir ynglŷn â'r manau canlynol: rhwng Pant-y-dŵr a Cresta; rhwng Fagwr a Glennydd; ar y sgŵar yn Ferwig. Awgrymwyd bod y Clerc yn cysylltu gyda'r Cyngor Sir yn gofyn a byddent yn fodlon ystyried cyflogi person i gadw'r gwteri'n glir, er mwyn osgoi llifogydd.
- (d) **Golygfan Gwbert:** Awgrymodd Mr John Morris bod angen llanw ceubyllau ar wyneb Golygfan Gwbert. Cytunwyd i'r Clerc ofyn i Mr Morris lenwi'r ceubyllau a hefyd i archwilio'r arwydd adlewyrchol sydd wrth y fynedfa i'r Olygfan.

## 11. Adroddiad y Cynghorydd Sir, y Cyng. Clive Davies

- (a) **Place Plans:** Mae cyfarfod wedi ei drefnu yng Nghastell Aberteifi ar 20 Chwefror, 2018 am 7.00 o'r gloch. Bydd Mr Alan Haird, swyddog gyda'r Cyngor Sir yn egluro'r cynllun. Gofynnodd y Cyng. Clive Davies i gynghorwyr fynychu'r cyfarfod yma fydd ar y cyd â chynghorau tref a bro'r ardal.
- (c) **CLIC:** Mae'r Cyngor Sir yn bwriadu ailstrwythuro'r system i dderbyn adroddiadau a chwynion oddi wrth gynghorau. Ceir rhagor o fanylion yn y dyfodol.

## 12. Dyddiad y cyfarfod nesaf: 5 Mawrth yn Hen Ysgol y Ferwig.

### Cyfarfodydd y Cyngor am 2018

9 Ebrill (YB) 14 Mai (F) 4 Mehefin (YB)

2 Gorffennaf (F) 3 Medi (YB) 1 Hydref (F) 5 Tachwedd (YB) 3 Rhagfyr (F)

*Dynoda* F = Hen Ysgol y Ferwig. YB = Ystafell Berkley.

# CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

## **Minutes of the Ordinary Meeting held on 5 February, 2018 at 7.30pm at Ystafell Berkley, Penyparc.**

### **Present**

Cllr Llinos Price (*Chairperson*)  
Cllr Lyn Jones  
Cllr Peter Williams  
Cllr Lloyd Jenkins  
Hildreth Owen (Clerk)

Cllr Dilwyn Jenkins (*Vice Chairperson*)  
Cllr Des Davies  
Cllr Ann Stokoe  
Cllr Matthew Morgan  
Cllr Clive Davies (*local member of the County Council*)

1. **Chairperson's welcome.** The Chairperson, Cllr Llinos Price, welcomed everyone to the February meeting. She offered the condolences of all members to Cllr Auriol Williams and family following the loss of her mother, Mrs Mair Elias.
2. **Apologies for absence:** Cllrs Auriol Williams, Eurig Lloyd.
3. **Minutes of the previous meeting.**  
It was proposed by Cllr Lloyd Jenkins and seconded by Cllr Peter Williams that the January minutes be recorded as correct.
4. **Declaration of personal interests:** Nil.
5. **Matters arising:**
  - (a) **Brynteg, Ferwig:** Cllr Dilwyn Jenkins and Cllr Lyn Jones agreed to meet with Mr Robert Morgan requesting a quotation for replacing the slate on the original site. The Clerk was requested to write to the owners of Brynteg advising them that the slate will be re-erected on its original site, and it is anticipated that this work will be carried out by April 2018.
  - (b) **Bus Shelters:** It was agreed that the Council should apply for a grant to purchase a new bus shelter at Penyparc, replacing the one that was removed by the County Council due to its poor state of repair. Cllr Dilwyn Jenkins and Cllr Matthew Morgan agreed to inspect the bus shelter at Gwbert which needs repairing. Cllr Llinos Price also mentioned that the bus shelter opposite Pwlllybwmpwr was in a very poor state of repair. Cllr Peter Williams raised the point that the Council should ascertain who is liable in the eventuality of a legal claim. The Clerk was instructed to contact the County Council regarding this matter.
  - (c) **Dog Fouling:** A public meeting has been arranged for 9 February at Capel Penyparc vestry to discuss the fouling of pavements and footpaths by dogs. PCSO Matthew Kieboom and Cllr Clive Davies will be present. Posters advertising the event have been distributed.
6. **Requests for financial support.**  
To be discussed in April and October in accordance with Sections 137 and 142 (CAB) of the Finance Act 1996.

Hen Ysgol y Ferwig	To be discussed at the April 2018 meeting
PTA Ysgol Gymunedol Penyparc	£150
Ysgol Feithrin Penyparc	£2,000
Local Welsh newspaper "Y Gambo"	£150
Citizens' Advice Bureau	To be discussed at the April 2018 meeting
Gŵyl Fawr Aberteifi	To be discussed at the April 2018 meeting
Ceredigion Young Farmers' Clubs	To be discussed at the April 2018 meeting
Aberystwyth Samaritans	To be discussed at the April 2018 meeting
Tenovus Cancer Care	To be discussed at the April 2018 meeting

*(Names in italics = accounts forwarded with applications)*

7. **Planning:** Nil.

# CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

## 8. Financial Matters.

### Bills paid:

Clerk's wages (January 2018)	101666	£308.77
Clerk's Expenses (January 2018)	101667	£48.00
HM Customs & Excise (Clerk's Income Tax January 2018)	101668	£77.20
Zurich Insurance 1/4/18 – 31/3/19	101669	£725.29
Canolfan Ieuenctid Penyparc: 50% insurance for Ystafell Berkley	101670	£310.32
Penyparc YFC: Cleaning changing rooms at Ystafell Berkley	101671	£220.32

It was proposed by Cllr Dilwyn Jenkins and seconded by Cllr Ann Stokoe that the above bills be paid.

**Receipts:** Nil

**Other Financial Matters:** Nil

## 9. Correspondence:

76	Ceredigion Young Farmers' Club	Request for financial assistance.	To be discussed in April 2018
77	Samaritans (Aberystwyth branch)	Request for financial assistance.	To be discussed in April 2018
78	Local Democracy and Boundary Commission for Wales	Review of Electoral Arrangements for the County of Ceredigion Draft Proposals See below	Posters have been placed in the noticeboards. Further information: <a href="http://www.ldbc.gov.wales">www.ldbc.gov.wales</a>
79	Elin Jones AM	Best wishes for the new year and posters informing how electors can contact her regarding an appointment at surgeries.	Posters have been placed in the noticeboards.
80	Mr and Mrs Giles Evans, Crug Bychan, Ferwig	Complaints regarding the potholes on the road between Bolafron and Penfeidr.	The Clerk was requested to reply stating that many complaints have been received and a letter has been sent to the County Council. The Council await their response.
81	Ben Lake MP	Posters informing how electors can contact him regarding an appointment at his surgeries.	Posters have been placed in the noticeboards.
82	Tenovus – Cancer Care	Request for financial assistance.	To be discussed at the April meeting.
83	Ceredigion County Council (Finance Department)	Town and Community Council 2017 Election costs (£162.30)	This sum will be deducted from the 2018-19 precept in April 2018
84	Gŵyl Fawr Aberteifi	Request for financial assistance	To be discussed at the April meeting.
85	Zurich Municipal	Insurance documents for the year 1/4/18 – 31/3/19	Documents have been filed on the computer and the external drive.
86	FUW Insurance Services (Ystafell Berkley, Penyparc)	Insurance documents for the year beginning 20 February, 2018.	The Council pays half of the cost. The documents have been filed by the Clerk.

[78] **Local Democracy and Boundary Commission for Wales.** A copy of the "Draft Proposals Report" published in January 2018 by the Commission is available with the Clerk. The Report is a "Review of the Electoral Arrangements of the County of Ceredigion". The Commission proposes that the number of councillors serving on Ceredigion County Council should be reduced from the present 42 members to 38. This results in a proposed county average of 1,384 electors per member. Ceredigion County Council proposed an amendment to the community boundary between the town of Cardigan and the Community of Ferwig. The Council recommended the transfer of 380 electors from the western part of Y Ferwig Community into the Mwdan ward of the Town of Cardigan. The

# CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

recommendations of the County Council were submitted to the Commission on 3 April 2017. (See Appendix 5.) The Commission proposes combining the Communities of Aberporth and Y Ferwig to form an electoral ward with 2,683 electors to be represented by two councillors. The Commission has given the proposed electoral ward the Welsh language name of “Aber-porth a’r Ferwig” and the English language name of “Aber-porth and Y Ferwig”. The Commission also proposes combining the Communities of Beulah and Llangoedmor to form an electoral ward with 2,244 electors represented by two councillors.

*For information:* The existing Penparc electoral ward is composed of the Communities of Llangoedmor and Y Ferwig. It has 1,838 electors represented by one councillor (Cllr J. Clive Davies) which is 33% above the proposed county average of 1,384 electors.

Observations to be returned by 16 April 2018.

*(The above information can be found on pages 9, 12, 13, 15 of the Report.)*

## 10. Other matters:

- (a) **Pathway from the Gwbert Viewpoint to the “Flat Rock”:** A telephone call was received from Mrs Caroline Edwards, Gwbert, thanking the Council for the improvements carried out on the path.
- (b) **Evelyn’s Beach:** A complaint was received from Mrs Shirley Daniel regarding the condition of Evelyn’s Beach in Gwbert. The Clerk was requested to inform Mrs Daniel that normally only written complaints are received by the Council. Cllr Dilwyn Jenkins agreed to raise the matter with the Afon Teifi Fairways committee.
- (c) **Gutters in the Community:** Following the unfavourable weather, it was decided to contact the County Council requesting that they make arrangements for the clearing of all gutters. The Clerk was asked to request the County Council to consider employing a staff member specifically to clear the drains when necessary. The Clerk has reported the following locations as needing special attention: between Pant-y-dŵr and Cresta; between Fagwr and Glennydd; the Ferwig square.
- (d) **Gwbert Viewpoint:** Mr John Morris suggested that the potholes at the Viewpoint require mending, The Clerk to ask Mr Morris to complete the work and to inspect the reflective signage at the entrance to the Viewpoint.

## 11. County Councillor’s Report – Cllr Clive Davies:

- (a) **Place Plans:** A meeting has been arranged at Cardigan Castle on Tuesday, 20 February at 7.00pm when Mr Alan Haird will make a presentation regarding the development of the scheme, The meeting will be attended by other local town and community councils. Cllr Davies asked for representation from the Council to be present.
- (b) **CLIC:** The County Council is in the process of restructuring its communication system whereby town and community councils can contact departments at a touch of a button.

## 12. Date of next meeting: 5 March at Hen Ysgol y Ferwig.

### The remaining 2018 Council Meetings

9 April (YB) 14 May (F) 4 June (YB)  
2 July (F) 3 September (YB) 1 October (F) 5 November (YB) 3 December (F)

*Denotes:* F = Ferwig Old School. YB = Ystafell Berkley